LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# Polisi Cadwedigaeth a Gofal Casgliadau

## 1. Cyd-destun Polisi

Mae'r **Fframwaith Rheoli Casgliadau** yn gosod cyd-destun ar gyfer y polisïau sy'n cynorthwyo'r Llyfrgell i reoli'r casgliadau yn effeithiol ac effeithlon er budd pobl Cymru a'r Byd. Mae'r polisi hwn yn rhan o'r fframwaith a dylid ei ddehongli yn y cyd-destun hwnnw.

## 2. Cyd-destun Strategol

2.1 Mae'r casgliadau wrth galon gwaith a gweithgaredd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan Siarter Frenhinol yn 1907 ac mae'r Siartr honno'n datgan mai prif bwrpas y Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw:

*"casglu, cadw a rhoi mynediad i wybodaeth gofnodedig o bob math ac ar bob ffurf, yn arbennig gwybodaeth sy'n ymwneud â Chymru a'r Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu."*

2.2 Mae'r casgliadau'n bodoli er budd pobl Cymru a'r byd, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol. Mae cynllun strategol y Llyfrgell ar gyfer *2021-2026 – Llyfrgell i Gymru a'r Byd* yn atgyfnerthu'r egwyddor hwn wrth nodi gweledigaeth y Llyfrgell sef:

*"I wneud gwahaniaeth er gwell i bawb yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol, ac i fod yn llyfrgell genedlaethol agored, blaengar ac arloesol."*

2.3 Mae'r Cynllun Strategol hefyd yn cynnwys pedwar amcan strategol a llesiant:

- Meithrin a gofalu am gof y genedl
- Gosod sylfaen economi gwybodaeth
- Bod yn ganolog i fywyd Cymru
- Grymuso ymchwil a dysg

2.4 Mae darparu mynediad at y casgliadau nid yn unig yn un o brif bwrpasau'r Llyfrgell o dan y Siarter ond hefyd yn fodd i'r Llyfrgell wireddu ei gweledigaeth a'i hamcanion strategol a llesiant.

2.5 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r egwyddorion cadwraeth ar gyfer casgliadau sydd yng ngofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC). Mae gan LlGC ystod eang o gasgliadau mewn amrywiol fformatau, sy'n cynnwys:

- Deunydd printiedig (llyfrau, cylchgronau, papurau newydd)

- E-adnoddau
- Gwefannau
- Llawysgrifau
- Deunydd archifol (papur a digidol)
- Peintiadau a Printiau topograffyddol
- Portreadau
- Ffotograffau
- Mapiau a siartiau
- Ffilm
- Fideo
- Recordiadau sain

2.6 Agwedd y Llyfrgell at ofal casgliadau yw hwyluso'r defnydd o'r casgliadau am gyhyd â phosibl, drwy raglen integredig o gadwedigaeth ataliol a thriniaeth. Mae'r Llyfrgell yn gweithredu gyda llai o adnoddau a rhaid iddi sicrhau ei bod yn gofalu am gasgliadau mewn ffordd gyfrifol a strategol.

**3. Camau Gweithredu o ran Cadwedigaeth**

Bydd y Llyfrgell yn

- cynnal arolygon rheolaidd o gyflwr casgliadau er mwyn asesu eu hanghenion a'u cyflwr
- blaenoriaethu a chynllunio gweithgareddau cadwedigaeth, yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt sy'n ystyried arwyddocâd a chyflwr, ac yn unol a'r cynllun gweithredu cadwraeth
- cyfrannu at, hyrwyddo a defnyddio safonau ac arfer gorau cyfredol, yn cadw at egwyddorion moesegol cadarn
- rheoli'r asedau digidol fel rhan annatod o'r casgliad, gan gyfeirio at y Strategaeth Cadwedigaeth Digidol cysylltiedig
- gwneud gwaith triniaeth cadwraeth, gyda chyn lleied â phosibl o ymyrraeth, lle y bo angen
- gwneud gwaith cadwraeth ataliol i leihau dirywiad a difrod i eitemau'r casgliad
    - trwy reoli ardaloedd storio'n effeithiol
    - sicrhau bod amodau amgylcheddol yn cyrraedd safonau priodol ar gyfer storio ac arddangos deunyddiau'r casgliadau
    - glanhau a diogelu eitemau drwy becynnu priodol
    - trafod gofalus
    - monitro plâu

- cofnodi camau cadwraeth a monitro cyflwr eitemau sydd wedi eu harddangos neu eu benthyca

- hybu'r defnydd o gopïau dirprwyol, yn unol â'r ddogfen Egwyddorion Mynediad at Eitemau Casgliadau
- datblygu sgiliau trwy ddarparu hyfforddiant priodol i staff cadwraeth
- hybu ymwybyddiaeth staff a defnyddwyr o'r arfer gorau ar gyfer cadwedigaeth a gofal casgliadau
- nodi a lliniaru risgiau i gasgliadau
- cyfrif stoc yn rheolaidd ac archwilio casgliadau
- sicrhau diogelwch eitemau'r casgliadau, o fewn y Llyfrgell a phan ar fenthyg yn allanol
- sicrhau bod gofal casgliadau'n rhan o Gynlluniau Argyfwng a Pharhad Busnes

**4. Mynediad**

Bydd y Llyfrgell yn

- darparu mynediad rhydd a heb ei gyfyngu at y mwyafrif helaeth o gasgliadau'r Llyfrgell yn yr ystafelloedd darllen ac ar-lein
- darparu ystafelloedd darllen penodol i edrych ar fathau penodol o eitemau
- hyrwyddo'r defnydd o gopïau, yn hytrach na thrafod y deunydd gwreiddiol
- gosod mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer mynediad i eitemau arbennig o werthfawr (hen, unigryw, prin) a'r rhai ag iddynt arwyddocâd diwylliannol uchel, neu'r eitemau hynny sydd mewn cyflwr ffisegol gwael a bod y risg o beri niwed iddynt drwy eu trafod neu ddod i gysylltiad â newid amgylcheddol yn sylweddol
- hybu arfer da o safbwynt trafod a defnyddio

**5. Partneriaethau ac Eiriolaeth**

Bydd y Llyfrgell yn

- annog hybu gofal casgliadau i safonau cydnabyddedig drwy raglenwyr cydweithredol a chydweithio proffesiynol
- cefnogi rhaglenni ar gyfer hyfforddi, estyn allan ac ymwybyddiaeth gan gyrff proffesiynol, sefydliadau rhyngwladol a sefydliadau cadwedigaeth cydweithredol
- cydweithio ar brosiectau a gweithgareddau ar y cyd
- cefnogi cadwraeth yng Nghymru a thu hwnt drwy rannu sgiliau a gwybodaeth a darparu hyfforddiant a chefnogaeth i hyfforddeion a gwirfoddolwyr
- hybu ymwybyddiaeth o arfer gorau ar gyfer gofal casgliadau a chadwedigaeth

**6 Cynaliadwyedd**

Bydd y Llyfrgell yn

- mynd ati'n rhagweithiol i reoli ardaloedd storio, gan sicrhau'r defnydd gorau o le gwag drwy gynllunio strategol

- adeiladu newidiadau tymhorol i'r rheolaeth amgylcheddol er mwyn gwarchod ynni
- hybu gwybodaeth a throsglwyddo sgiliau
- ceisio ffynonellau ariannol i gefnogi gweithgareddau gofal casgliadau
- manteisio ar gyfleoedd busnes ar gyfer codi tâl am wasanaethau, offer ac arbenigedd, lle y bo'n briodol
- ystyried costau parhaus gofal casgliadau wrth ddatblygu'r casgliad

## 7 Llywodraethu ac Adolygu

Bydd y Llyfrgell yn

- alinio'r gweithgareddau gofal casgliadau o fewn strategaeth gorfforaethol y Llyfrgell
- cynnal cyfarfod bob chwarter o'r pwyllgor Gofal Casgliadau ac adrodd ynghylch materion i gyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth Casgliadau a Gwasanaethau Digidol
- cofnodi risgiau i'r casgliadau yn y Gofrestr Risg
- adolygu'r polisi bob tair blynedd

Adolygiad diwethaf: 2023

Adolygiad nesaf: 2024